

Stondin Sam

HANES DAU LYTHYR

Ar ben ei flwydd yn bump ar hugain oed cafodd 'Llanw Llŷn' ddau lythyr a'r rheini'n profi'n daclus bod y papur yn fyw ac yn iach, oherwydd llythyrau'n bygwth cyfraith England & Wales arno oedd y ddau. Ymddengys bod sylw a wnaed gan gyfrannwr yn rhifyn Chwefror wedi cythruddo cymaint ar Sara Taylor, golygydd Gwynedd y 'Cambrian News', fel ei bod yn gweld y peth fel enllib ac yn mynnu bod y geiriau i gyd yn cael eu tynnu'n ôl ynghyd ag ymddiheuriad llawn ac amlwg gan y 'Llanw' yn y rhifyn nesaf, sef rhifyn Mawrth. Dal i ddisgwyl y mae hi.

Yr hyn a dramgwyddodd Sara Taylor i'r fath raddau oedd sylw gan Simon Glyn yn dweud wrth busio bod pawb yn gwybod "bod adrannau golygyddol y 'Daily Post' a'r 'Cambrian News' yn gwbl wrth-Gymreig". Rŵan, ar wahan i fod yn ffeithiol amheus (c.e. a ydi Mr. Jan Sigmundsen o 34 Snowdon View, Reykjavik, Gwlad yr Iâ yn gwybod?) mae'n sylw hollol benagored. Mae mor benagored fel ei fod wedi'i wneud am fudiadau mor wahanol i'w gilydd a'r Blaid Geidwadol, Plaid Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a hyd yn oed Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn eu tro. Mewn geiriau eraill mae'n sylw sydd wedi mynd i bob pwrpas call yn ddiystyr, gan ei fod wedi'i ostwng i lefel slogan ers talwm. Mae'n amhosib bod enllib mewn rhywbeth mor benagored, pob-peth-i-bawb. A barn un cyfrannwr oedd o, prun bynnag, 'Llais y Sais' ydi'r enw llawr gwlad sydd wedi bod ar y 'Western Mail' (neu'r 'Western Mule', i roi iddo'i enw llawr gwlad arall) ers blynnyddoedd. Dydi'r papur hwnnw 'rioed wedi bod mor blentynnaidd a bygwth cyfraith ar neb sy'n rhoi iddo'r enwau hynny, er eu bod yn llawer mwy sylfaenol sarhaus na dim a sgrifennodd Simon Glyn am y 'Cambrian News'. Ac mae'r 'Daily Showcase' yntau wedi'i alw'n llawer o bethau yn ystod ei oes faith adiunrhydedd.

Mae'n bosib y byddai pethau'n gliriach tasai Simon Glyn wedi rhoi enghraifft. Flynyddoedd lawer yn ôl fyddai dim prinder wrth gwrs. Yr adeg honno rhywbeth yn digwydd i fwch gafr y Welsh Gàrd ar y diwrnod cyntaf o bob mis Mawrth oedd Cymreictod cyn belled ag yr oedd y 'Cambrian News' a bron pob papur arall tebyg iddo fo yn y cwestiwn. Mae pethau wedi newid ers hynny. Ond wn i ddim a ydi'r 'Cambrian News' yn dal i alw Llŷn yn *The Llŷn* ac Afon Teifi yn *The Teifi*. Mi fu'n gwneud hynny am flynyddoedd. O'i wneud y tro cynta gellid

galw hynny'n beth anghymreig, am resymau ieithyddol a hanesyddol syml. Ond pan oedd y papur yn dal i wneud hynny er gwaethaf cyngor gan bobl llawer mwy ieithyddol wybodus nag o'i hun, mae lle cryf i'w alw'n beth gwrth-Gymreig, gan ei fod yn bwriadol anwybyddu neu hyd yn oed fwriadol sarhaus egwyddorion enwi, ac yn stwffio Seisnigrwydd i lawr corn gddw Cymreictod drwy ddweud i bob pwrpas mai dyma sy'n digwydd yn Lloegr ac felly dyma sy'n gywir. Mae hynna'n beth gwrth-Gymreig. Mae'n debyg y byddai Sara Taylor yn anghytuno. Ond y ffaith syml amdani ydi nad oes deunydd enllib yn y gosodiad mwy na fyddai 'na yn yr anghytuniad.

Ond ta waeth am hynny. Cafwyd dau lythyr. Roedd y cyntaf yn Gymraeg, yn honni enllib ar ran y cyfrannwr a'r 'Llanw', ac yn mynnu ymddiheuriad. Cafwyd galwad ffon lawer mwy cymhedrol a chymodlon ar ôl i hwnnw gyrraedd, ond nid hefo Sara Taylor. Pan ddaeth y newyddion am yr alwad honno i'w chlustiau hi fuodd hi ddim chwinciad yn anfon llythyr arall at y 'Llanw', a hwnnw'n llawr mwy ffrom na'r un cyntaf. Ond nid dyna'r gwahaniaeth mawr rhwng y ddau. Cymraeg oedd iaith y cyntaf. Official oedd iaith yr ail. Ydi debyg, mae'r iaith Gymraeg yn iawn yn ei lle - iawn i betha fel Capal a thrimins Bwrdd yr Iaith, ond pan mae isio bod yn wirioneddol Official, wel diawl. Da iawn, Sara. Nid bod yn wrth-Gymreig ydi hynny si'r Dduw.

Un o'i chwynion oedd bod sylwadau Simon Glyn yn sarhad ar y golygydd, y gohebwy'r, yr adran hysbysebu, a phob adran arall yn y 'Cambrian News'. Mymryn o or-ddweud, Sara? Enghraifft odidog o redeg at y dyrfa am gefnogaeth a dod a hi i'r canol i'w sicrhau. Sori, 'mechan i, weithith hi ddim, hyd yn oed os oedd pawb yn y 'Cambrian News' wedi'u tramgwyddo i'r fath raddau fel eu bod yn defnyddio'r union un geiriau yn yr union un drefn i amlygu hynny.

Ond y bygythiad olaf oedd y gorau. Mae Sara Taylor yn gwybod digon am gyfraith enllib i wybod y gellir dod ag achos yn erbyn dosbarthwyr papurau yn ogystal a chyfranwyr a golygyddion a'r perchnogion (neu'r pwyllgorau rheoli, fel bo'n berthnasol). A cholodd hi mo'r cyfle i fygwth dosbarthwyr y 'Llanw' chwraith. Rŵan, mae llawer o ddsbarthwyr 'Llanw Llŷn' yn dosbarthu'r 'Cambrian News' hefyd. Hynny ydi, mae golygydd Gwynedd y 'Cambrian News' yn bygwth mynd a rhai o werthwyr ffyddlon y 'Cambrian News' i gyfraith. Brysied, brysied y dydd.